
*Mae pethau'n digwydd ym*

# MAENDY

## Cylchlythyr y Gwanwyn 2016



Garfield Weston
Esmée Fairbairn
Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales
The National Lottery
Y Loteri Genedlaethol

# LLYFRGELL MAENDY +

**Agorodd Llyfrgell Maendy ar ddiwedd mis Hydref. Mae'n hollol ar wahân i lyfrgelloedd y cyngor, ond dych chi'n dal i allu benthyg llyfrau, defnyddio cyfrifiaduron a'r peiriant argraffu a manteisio ar y cyfle i gael sgwrs dros baned a bisgeden neu ddwy!**

Ymhlith y gweithgareddau sydd wedi, neu ar fin eu dechrau yw clwb mathemateg i blant, amser stori i blant, dosbarthiadau Arabeg, sesiynau TG a Saesneg a chlwb Sbaenaidd. Mae clwb swyddi wythnosol yn cwrdd yno (croeso i bawb) ac mae'r Ganolfan Gynghori yno yn wythnosol i ddelio â chwestiynau.

**Os hoffech wybod mwy am yr hyn sydd yn mynd ymlaen yn y llyfrgell, neu os hoffech helpu mewn unrhyw ffordd mae croeso i chi ddod i'n diwrnod agored nesa dydd Sadwrn Chwefror 13eg.**

| | |
|---|---|
| **Dydd Mercher** | **10am — 5pm** |
| **Dydd Iau** | **10am — 5pm** |
| **Dydd Gwener** | **10am — 5pm** |
| **Dydd Sadwrn** | **10am — 1pm** |

**Aelodaeth am ddim — Ymunwch â'r llyfrgell ar-lein.**

**01633 309443 | maindee.org | info@maindee.org**








# CRAFFU AR Y CELFYDDYDAU



**Mae dwys angen ail-lunio'r darn o dir trionglog lle mae Toiledau Cyhoeddus Heol Cas-gwent; ynglyn â hyn mae Maindee Unlimited yn siarad gyda'r Cyngor Ddinesig am ei ail-ddatblygu fel...*Y Triongl.***

Y cynllun yw adeiladu toiledau newydd ar y safle a chreu lle agored newydd o safon uchel ar gyfer marchnadau rheolaidd a digwyddiadau awyr agored eraill.

Hoffem wybod eich barn chi am hyn. Gallwch ddod i mewn i'r llyfrgell i lanw holiadur neu fe allwch fynd ar-lein at www.maindee.org a dilyn y ddolen i'r arolwg.

Dydd Sadwrn, **Mawrth 19eg** fe fydd marchnad brawf. Dewch i farchnata!

# SIARAD SIOPAU

**Mae pob stryd fawr ar draws y DU wedi dioddef gan fod mwy a mwy o bobl yn siopa ar-lein neu mewn parciau manwerthu y tu allan i'r dre.**

**Yn sicr, mae Ardal Canolfan Maendy wedi dioddef o hyn, ond mae masnachwyr a thrigolion lleol yn gweithio gyda'i gilydd nawr i geisio dodi Heol Casgwent nol fel ag yr oedd.**

**Mae Partneriaeth Pentre Maendy newydd gael ei lunio i arwain datblygiad amryw o welliannau. Mae'r Bartneriaeth newydd lansio ymgyrch Cadwch Maendy'n Daclus (edrychwch mas am y sticeri) ac yn comisiynu arwyddion 'Croeso i Faendy' ac arwyddion meysydd parcio.**

**Cysylltwch ag info@maindee.org i gael sticer, neu ewch i Lyfrgell Maendy + i gael un.**



**Beth yw'ch barn am y safleoedd cymunedol hyn?**


Y TRIONGL

LLYFRGEL MAENDY


**Dewch i'r llyfrgell i lanw holiadur neu ewch ar-lein at www.maindee.org**

# CRAFFU AR Y CELFYDDYDAU

Galw maplunwyr oll! Bydd Mappa Maendy’n archwilio ein hanes, diwylliant a’n cymunedau er mwyn creu lluniau newydd disglair o’r ardal. Croeso i bob un lunio ei fap ei hun gyda chymorth arbenigol. Cysylltwch ag Aled Singleton (aled@maindee.org) i gael gwybodaeth am sut y gallwch chi, neu’ch grwp fynd ati!

Gall pobl ifanc lleol fod yn greadigol drwy ddefnyddio cyfleustra cyfryngau a chyfathrebiadau digidol newydd fydd yn agor cyn bo hir yn Llyfrgell Maendy +. Os oes diddordeb gya chi mewn gwybod mwy am hyn, cysylltwch â Fez Miah (fez@maindee.org) neu dewch draw i’n diwrnod agored Cyfryngau Stryd dydd Iau Chwefror 25ain rhwng 6 – 8pm yn y llyfrgell.

# LLWYBRAU NEWYDD

**Cronfa newydd i drigolion a chyfundrefnau lleol Maendy sydd eisiau gwneud rhywbeth creadigol yw Llwybrau Newydd.**

Rhaid i'ch digwyddiad ei leoli'n lleol a rhaid iddo gynorthwyo pobl i ddatblygu eu sgiliau creadigol. Gallai prosiectau llwyddiannus gynnwys perfformiadau, digwyddiadau stryd, prosiectau tyfu neu dirlunio, neu unrhywbeth ym myd celfyddyd. Fe allwch gynnig am rhwng £50—£2500. Bydd y mwyafrif o geisiadau llwyddiannus am grantiau rhwng £50—£500.

Mae ffurflenni cais i'w cael yn y llyfrgell neu gellir eu lawrlwytho o www.maindee.org.




## CHWARAE TEG!

**Bydd Gwyl Maendy eleni yn cymryd lle dydd Sadwrn Gorffennaf 9fed. Os hoffech gymryd rhan, perfformio, masnachu neu helpuar y diwrnod cysylltwch â ni os gwelwch yn dda — info@maindee.org — neu ewch at festival.maindee.org**

# BE SY MLAEN?

**Dwedwch eich dweud | Sadwrn, Chwefror 13eg | 10am – 3pm**
Diwrnod agored yn Llyfrgell Maendy + gyda diod twym ac oer am ddim a theisennau cartref. Gwneud baneri yn y Triongl rhwng 12pm–4pm. Dwedwch eich dweud ar faterion sy'n effeithio ar Faendy.

**Cyfarfod Partneriaeth Pentre Maendy | Mawrth Chwefror 16eg | 5:30pm – 7:30pm**
Yn Llyfrgell Maendy +. Croeso i bawb.

**Dwedwch eich dweud | Mercher, Chwefror 24ain | 12pm – 4pm**
Trafodwch faterion sy'n effeithio ar Faendy tra'n cynllunio eich patrymau eich hunar deils ac ar bren yn Nhriongl Maendy.

**Noson Agored Cyfryngau Stryd | Iau, Chwefror 25ain | 6pm – 8pm**
Noson agored ar gyfer Cyfryngau Stryd yn Llyfrgell Maendy +. Ymunwch â'n uned cyhoeddusrwydd creadigol a dysgwch sut i greu defnydd cyhoeddusrwydd trawiadol drwy ddefnyddio cyfryngau digidol a thraddodiadol.

**Marchnad Awyr Agored | Sadwrn, Mawrth 19eg | Drwy'r Dydd**
Marchnad awyr agored yn Livingstone Place. Gwybodaeth i fasnachwyr oddiwrth: info@maindee.org

**Gweithgareddau newydd yn Community House Heol Eton:**
Dosbarthiadau ESOL (AM DDIM, dosbarthiadau i ddechreuwyr a'r mwy profiadol, Llun a Mercher)
Sesiynau dawnsio stryd (AM DDIM, dros 12 oed, Gwener 5–6pm)
Clwb Merched Heini Maendy (Clwb chwarae 5–12 oed, Mercher 6:30–8:30pm)

Am raglen llawn yn cynnwys digwyddiadu ac ystafelloedd ar gael ar log (ar gyfer cyfarfodydd, grwpiau cymdeithasol, partion ayyb) cysylltwch ag Yvonne Sherlock ar 01633 265 486 neu ebostiwch: admin@etonrdch.org

Casglwch flwch bwyd gwerth £6 bob bore dydd Mercher 10:45am – 12pm yn Eglwys y Bedyddwyr, Summerhill. Yn ogystal diod twym a sgwrs.

***Os hoffech gael y wybodaeth yma yn Gymraeg, cysylltwch â ni drwy info@maindee.org***
***If you want more information on any activities please email info@maindee.org***

FSC www.fsc.org MIX Paper from responsible sources FSC® C125180

**Cyhoeddwyd gan Maindee Unlimited**
**Community House, Stryd Eton, Casnewydd, NP19 OBL**
**info@maindee.org | www.maindee.org**